# SL(5)678 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddileu'r cofnodion ar gyfer Estonia a Latfia.

Mae Rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ychwanegu Aruba, Gweriniaeth Ddemocrataidd Timor-Leste, Gwladwriaethau Ffederal Micronesia, Gwladwriaeth Annibynnol Samoa, Teyrnas Bhutan, Teyrnas Tonga, Mongolia, Gweriniaeth Kiribati, Gweriniaeth Vanuatu ac Ynysoedd Solomon i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn codi'r cyfyngiadau penodol a osodwyd ar deithwyr o Ddenmarc ac aelodau o'u haelwyd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn codi'r gwaharddiad ar awyrennau a llongau yn cyrraedd yn uniongyrchol o Ddenmarc. Fodd bynnag, ni fydd Denmarc yn cael ei chynnwys ar y rhestr o wledydd esempt. Felly, bydd yn ofynnol o hyd i deithwyr o Ddenmarc ynysu wrth gyrraedd Cymru.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu digwyddiadau chwaraeon at Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n golygu nad oes rhaid i'r rhai sy'n ymwneud â digwyddiadau chwaraeon o'r fath ynysu pan fyddant, er enghraifft, yn cystadlu mewn digwyddiad chwaraeon a restrir yn Atodlen 4.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 am ar 28 Tachwedd 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan

fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft**.

Yn rheoliad 8(2 (a) o'r testun Cymraeg, dylid gwneud y diwygiad yn “is-baragraff (e)”, nid “is-baragraff (c)”.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn “gwneud negyddol” gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri’r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 27 Tachwedd 2020.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *“Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi’r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.”*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *“Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae’r Llywodraeth o’r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.”*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Rhagfyr 2020**